# Welsh Singers Showcase

# Llwyfan Cantorion Cymreig

2021

PROGRAMME | RHAGLEN

Cefnogwyr Llwyfan Cantorion Cymreig | Supporters of the Welsh Singers Showcase

S4C

RONDO

Glass BY DESIGN

THE CARNE TRUST

David and Bettina Harden and the Sickle Foundation

Sickle Foundation

hydesign

## Cylch **Ffrindiau** | Circle of **Friends**

Chris Ball
Martin Drew
Rebecca Evans
Judith Foy
Gwyn Hughes Jones
Christobel Hutchings
John & Margrette Jones
Peter & Janet Jones
Christine Lewis
Samantha Maskrey
Moondance Foundation
Suzanne Murphy
Janet Price
Carlo Rizzi & Lucy Stout
John & Dorn Swaffield
James White
Gwen & Meurig Williams

**Pwyllgor Llwyfan Cantorion Cymreig** | **Welsh Singers Showcase Committee**

Cadeirydd | Chairman
Dr Carol Bell

Cyfarwyddwr, Cadeirydd y Rheithgor | Director, Chairman of Jury
Julian Smith

Aelodau'r Pwyllgor | Committee Members
Gillian Green MBE, Beatrice Unsworth, David Jackson

Gweinyddydd | Administrator
Sue Welch

Nodiadau rhaglen | Programme notes
©BBC Cardiff Singer of the World & Viv Goldberg

Cyfieithiadau | Translations
Cyfieithu Nanhyfer Translation nanhyfer.co.uk

Cynllyn y Rhaglen gan | Programme Design by
Robert Hyde hydesign.uk

# Llwyfan Cantorion Cymreig
# Welsh Singers Showcase 2021

mewn cydweithrediad â S4C | in association with S4C

## Prawf Terfynol | The Final

Nos Wener 19 Mawrth | Friday 19 March
S4C - 21.30 | S4C - 21.30

Artistiaid yn nhrefn eu hymddangosiad | Artists in order of appearance

**Osian Wyn Bowen**
**Jessica Cale**
**Rhys Batt**
**Sarah Gilford**
**Kieron-Connor Valentine**
**Rachael Marsh**

Cyhoeddi'r canlyniadau gan | Results announced by

**Rebecca Evans CBE**

Dewisir un o'r cantorion heddiw i gynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd 2021.

One of today's Showcase singers will be selected to represent Wales in BBC Cardiff Singer of the World 2021.

# Croeso!



# Welcome!

Cadeirydd
Dr Carol
**Bell**

Chairman
Dr Carol
**Bell**

Rwy'n falch iawn i'ch croesawu i'r Llwyfan Cantorion Cymreig digidol hwn. Fel y gwyddoch, roeddem yn bwriadu cynnal ein cyngerdd 2020 yn Neuadd Dewi Sant haf diwethaf i ddewis y canwr ifanc o Gymru i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd. Fel cymaint o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw eraill, fodd bynnag, bu'n rhaid canslo'r digwyddiad. Gan achub ar y posibilrwydd, rydym yn falch iawn eich bod yn gallu ymuno â ni trwy gyfryngau digidol. Yn anad dim oherwydd ein bod yn credu bydd y cyngerdd hwn o'r safon uchaf yn seiliedig ar y clyweliadau a gynhaliwyd cyn y cloi lawr yn 2020. Credwn y byddwch yn mwynhau perfformiadau'r chwech canwr ifanc yn fawr.

Diolch i lawer sydd wedi ein cefnogi yn y digwyddiad hwn. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i Rondo Media a S4C am ddarlledu'r cyngerdd ac hefyd i BBC Canwr y Byd Caerdydd ac i Goleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru am eu cydweithrediad.

Mae Llwyfan Cantorion Cymreig yn elusen gofrestredig ac rydym yn ddiolchgar iawn i'n noddwyr unigol a chorfforaethol, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Carne, Sefydliad Sickle a'n Cylch Cyfeillion. Mae Ymddiriedolaeth Carne yn darparu'r gefnogaeth ariannol i'r cantorion yn y rownd derfynol tra bod Sefydliad Sickle yn darparu cymorth i'r person bydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn BBC Canwr y Byd Caerdydd. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn bod gan yr elusen Gylch Cyfeillion sydd wedi cefnogi'r digwyddiad hwn, a'r paratoadau ar ei gyfer, yn sylweddol. Mae hyn wedi bod yn bwysicach fyth eleni, o gofio na fydd unrhyw refeniw o werthu tocynnau yn dod i gefnogi ein rhaglen.

Mae cefnogaeth hael a chyson i'r elusen yn helpu sicrhau y gallwn ddarparu cyfleoedd pellach i gantorion ifanc o Gymru i arddangos eu doniau yn y dyfodol. Os hoffech chi gefnogi dyfodol y digwyddiad hwn trwy ymuno â Chylch Cyfeillion Llwyfan Cantorion Cymreigu, cysylltwch â welshsingersshowcase@gmail.com. Yn yr un modd, os hoffech gyfrannu £22, sef pris y tocyn i fynychu ein cyngerdd diwethaf yn bersonol, gallwch wneud hyn trwy ein gwefan. www.llwyfancantorioncymreig.com

Mwy na dim, eisteddwch yn ôl a mwynhewch y canu gogoneddus. Mawr obeithiwn y cawn gyfle i ddod at ein gilydd eto mewn cyngerdd byw yn 2022.

I am delighted to welcome you to this digital Welsh Singers Showcase. As you will know, we had planned to stage our 2020 concert at St David's Hall last summer to select the young Welsh singer to represent Wales at this year's BBC Cardiff Singer of the World competition. As for so many other live music events, unfortunately, the event had to be cancelled. Embracing the possible, we are delighted that you are able to join us through digital media. Not least because we believe this year's showcase will be of the highest standard based on the auditions held prior to lockdown in 2020. We believe you will thoroughly enjoy the performances of the six young singers.

After the last singer has performed, our panel of experts will decide which singer will go forward to represent Wales in this year's BBC Cardiff Singer of the World. Thanks are due to many who have supported us in this event. We are particularly grateful to Rondo Media and S4C for broadcasting this showcase and also to BBC Cymru Wales and the Royal Welsh College of Music and Drama for their collaboration.

Welsh Singers Showcase is a registered charity and we are very grateful to our individual and corporate donors, including the Carne Trust, the Sickle Foundation and our Circle of Friends. The Carne Trust is this year supporting us for the third time, providing the financial awards to the finalists, while the Sickle Foundation's grant will enable the selected singer to prepare for the BBC Cardiff Singer of the World. We are also very grateful to the charity's Circle of Friends, who have made substantial donations to fund this event and the preparations for it. This has been all the more important this year, given that there will be no revenue from ticket sales to support our programme.

Continued generous support for the charity helps to ensure that we can provide further opportunities for upcoming young Welsh singers to showcase their talents in the future. If you would like to support the future of this event by joining the Welsh Singers Showcase Circle of Friends, please contact welshsingersshowcase@gmail.com. Equally, should you wish to donate £22, the price you would have paid to attend our last event in person, you may do this through our website.
www.welshsingersshowcase.com

But above all, sit back and enjoy the glorious singing. We very much hope that we can all be together in person again in 2022.

# Enillwyr Blaenorol



# Past Winners

Angharad
Lyddon,
**Enillydd 2018**

Angharad
Lyddon,
**Winner 2018**

Dechreuodd y paratoadau ar gyfer cyngerdd heno gyda chlyweliadau yng Nghaerdydd a Llundain diwedd Ionawr a dechrau Chwefror 2020, pryd dewisiwyd gan y panel beirniaid chwech o gantorion i berfformio heno. Heno yr panel yn dewis un canwr i fynd ymlaen i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd ym Mehefin 2021. Yn ogystal bydd y canwr yn derbyn gwobr ariannol o £2,000, gyda'r pump canwr arall yn derbyn £750 er mwyn cynorthwyo gyda'u hastudiaethau pellach.

The preparations for this evening's concert began with auditions in Cardiff and London in late January and early February 2020, at which the panel of adjudicators selected the six singers who perform this evening. Tonight the panel will choose one singer to go forward to represent Wales in BBC Cardiff Singer of the World in June 2021. This singer will also receive a cash award of £2,000, and the other five singers will each receive £750 to assist future studies.

Ymhlith enillwyr Cantorion Cymru'r gorffennol mae:
Previous Welsh Singers winners are:

| | |
|---|---|
| 1964 | Janet Price |
| 1967 | Wynford Evans |
| 1970 | Pamela Field |
| 1973 | Patricia O'Neill |
| 1976 | Helen Field |
| 1979 | Penelope Walker |
| 1982 | Helen Willis |
| 1985 | Buddug Verona James and David Gwesyn Smith |
| 1988 | Bryn Terfel |
| 1991 | Rebecca Evans |
| 1994 | Eldrydd Cynan Jones |
| 1996 | Gwyn Hughes Jones |
| 1998 | David Kempster |
| 2000 | Joanne Thomas |
| 2002 | Elizabeth Donovan |
| 2004 | Camilla Roberts |
| 2006 | Sarah-Jane Davies |
| 2008 | Natalya Romaniw |
| 2010 | John Pierce |
| 2012 | Gary Griffiths |
| 2014 | Céline Forrest |
| 2016 | Sioned Gwen Davies |
| 2018 | Angharad Lyddon |

**Un'aura Amorosa** *Così fan tutte* Mozart

Mae Ferrando a Guglielmo wedi cytuno eu bod am brofi faint mae dyweddi'r ddau ohonynt yn eu caru drwy gymryd arnynt eu bod yn ymwelwyr o Albania a cheisio eu hudo. Tua diwedd Act 1, mae'r merched dal yn ffyddlon, ac mae Ferrando yn canu'r aria hon am gariad a all wrthsefyll popeth.

Ferrando and Guglielmo have agreed to test the love of their fiancées by disguising themselves as visiting Albanians and attempting to seduce them. Towards the end of Act 1 the girls are remaining steadfastly loyal, and Ferrando sings this aria about all-sustaining love.

**Ecco ridente in cielo**, *Barber of Seville* Rossini

Ar ddechrau'r opera, mae'r Iarll Almaviva (mewn cuddwisg ac yn honni bod yn Lindoro, myfyriwr heb geiniog i'w enw) yn canu cân serch y tu allan i ffenest Rosina. Mae'n canu ynghylch toriad gwawr yn y ffurfafen lawen ac yn galw ar i'w anwylyd ddeffro a thawelu ing ei serch.

At the beginning of the opera, Count Almaviva (disguised as Lindoro, a penniless student) offers a serenade under Rosina's window. He sings of dawn breaking in the laughing heavens and calls on his beloved to wake up and soothe his agonies of love.

**Avete torto!...Firenze è come un albero fiorito** *Gianni Schicchi* Puccini

Mae Rinuccio mewn cariad â Lauretta, merch Gianni Schicchi. Mae ei deulu'n ei ddwrdio am feddwl priodi merch ceiliog dandi o werinwr anwybodus ond dywed Rinuccio eu bod yn ei methu hi, bod Schicchi yn beniog ac yn gyfarwydd â'r gyfraith ac mewn lle i roi cymorth iddyn nhw ddatrys problem ewyllys un o'u perthnasau. Cana am Firenze fel coeden yn ei blodau, yn dwyn ei nerth o wreiddiau eang.

Rinuccio is in love with Lauretta, Gianni Schicchi's daughter. His relatives berate him for contemplating marriage to the daughter of an ignorant upstart peasant, but Rinuccio says they are wrong, that Schicchi is clever and knows the law and can help them with the problem of a relative's will. He sings that Florence is like a tree in flower, drawing its strength from farflung roots.

**Halt!** *Die schöne Müllerin D795 no.3* Schubert

Mae 'Morwyn Dlos y Felin' yn gylch o ganeuon a osodwyd ar gyfer cerddi Wilhelm Müller. Cyrhaedda'r teithiwr y felin, gyda'i olwyn ddŵr swnllyd yn boddi sŵn y nant fyrlymog. Mae'n mynegi ei edmygedd o'r tŷ, a'i ffenestri sy'n disgleirio yng ngolau'r haul.

'The Fair Maid of the Mill' is a song cycle set to poems by Wilhelm Müller. The traveller comes upon a mill, its noisy wheel drowning out the sound of the babbling brook. He admires the house, its windows gleaming in the sunlight.

**Der Neugierige** *Die schöne Müllerin D795 no.6* Schubert

Yn 'Yr Ymholydd', mae'r teithiwr yn holi i'r nant fud roi ateb iddo – ai 'ie' ynteu 'na'. Mae mewn cariad â merch y melinydd – ond a yw hi yn ei garu yntau hefyd? Ai anwiredd a lefarodd ei galon wrtho?

In 'The Inquirer', the traveller addresses the silent brook and begs it to answer either 'yes' or 'no'. He is in love with the miller's daughter – but does she love him too? Has his heart lied to him?

**Love went ariding** Bridge

Yng ngherdd Mary E Coleridge gwelir llun Cariad yn marchogaeth ar draws y wlad yn adfywio blodau ac yn dadmer ar afonydd fferllyd. Crefa glaslanciau a llancesi arno aros ond mae'n gwrthod gan fod gan Pegasus, y ceffyl mae'n ei farchogaeth, adenydd.

The figure of Love in Mary E Coleridge's poem is seen riding across the land, bringing flowers to life and thawing the frozen rivers. Youths and maidens beg him to stay, but he refuses, as Pegasus, the horse he is riding, has wings.

## Osian Wyn **Bowen** — Tenor

Oed: **24**
Cyfeilydd: **David Doidge**

Mae'r tenor Cymreig Osian Wyn Bowen â'i wreiddiau yn nhref borthladd Porth Tywyn de Cymru. Graddiodd yn ddiweddar o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd lle bu'n astudio o dan oruchwyliaeth y tenor adnabyddus, Adrian Thompson.

Ymddangosodd Osian mewn opera am y tro cyntaf yn ddiweddar yn rhan 'Jaquino' o 'Fidelio' Beethoven gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru gan berfformio'r rhan dan oruchwyliaeth y cynhyrchydd Syr David Pountney a'r arweinydd Lothar Koenings. Mae ei rannau operatig eraill yn cynnwys 'Ferrando' yn Cosi Fan Tutte, 'Tamino' a 'Monostatos' yn Y Ffliwt Hud, 'Gonzalve' yn L'heure Espagnole, 'Y Brif Ran' yn Albert Herring a 'Marco' yn The Gondoliers. Mae Osian wedi gweithio gyda rhai o hyfforddwyr ac arweinyddion amlyca'r byd yn cynnwys y maestro Carlo Rizzi a'r hyfforddwr lleisiol o fri bydeang, John Fisher.

Osian oedd enillydd gwobr Canwr Cymreig Ifanc y Flwyddyn MOCSA yn 2019 dan nawdd Côr Orffews Treforus. Ef hefyd yw derbynnydd diweddaraf cystadleuaeth cantorion Cymdeithas Gymreig Corau Meibion Cymru, gan gipio Gwobr Goffa Geraint Morris, yn ogystal â derbyn Ysgoloriaeth Minnie Morgan Cyngor Sir Caerfyrddin yn 2018 a 2019. Yn 2018, cyrhaeddodd Osian rownd derfynol Cystadleuaeth Cantorion Ifanc Gŵyl Gerdd Aberdaugleddau. Ym Mehefin 2019 cyrhaeddodd Osian rownd derfynol cystadleuaeth uchel ei bri 'Gwobr Ian Stoutzker' Coleg Breninol Cerdd a Drama Cymru.

Mae'n unawdydd cyngerdd poblogaidd gan ymddangos yn gyson fel artist gwadd ledled y DU.

Yn ystod haf 2021, bydd Osian yn ymddangos am y tro cyntaf gyda Garsington Opera yn canu rhan 'Ein Tierhändler' yng nghynhyrchiad y Cwmni o Der Rosenkavalier.



## Osian Wyn **Bowen** — Tenor

Age: **24**
Accompanist: **David Doidge**

Welsh tenor, Osian Wyn Bowen originates from the harbour town of Burry Port, South Wales. A recent graduate of the Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff, Osian studies under renowned Tenor, Adrian Thompson.

Osian recently made his operatic debut with Welsh National Opera, performing the role of Jaquino in Beethoven's 'Fidelio' under director Sir David Pountney and conductor Lothar Koenigs. Other operatic roles include, 'Ferrando' in Cosi Fan Tutte, 'Tamino' & 'Monostatos' in The Magic Flute, 'Gonzalve' in L'heure Espagnole, title role in Albert Herring and 'Marco' in The Gondoliers. Osian has worked with many of the world's leading conductors and vocal coaches, notably maestro Carlo Rizzi and world renowned vocal coach John Fisher.

Osian was the 2019 Winner of the MOCSA Young Welsh Singer of the Year, held by the Morriston Orpheus Choir. In addition, he is also the latest recipient of the Welsh Association of Male Voice Choirs singers competition, winning the Geraint Morris Memorial Award, along with being the recipient of the Carmarthenshire County Council's Minnie Morgan Scholarship 2018 & 2019. In 2018, Osian was a finalist in the Milford Haven Music Festival's Young Opera Singers Competition. Osian was a finalist in the RWCMD's prestigious competition, the 'Ian Stoutzker Prize' in June 2019.

In addition to this, he is also a popular concert soloist appearing regularly as a guest artist across the UK.

In the summer of 2021, Osian will make his company debut with Garsington Opera singing the role of 'Ein Tierhändler' in their production of Der Rosenkavalier.

**Spietati, io vi giurai** *Rodelinda* Handel

Mae Rodelinda, brenhines Lombardi, yn credu ei bod yn wraig weddw. Mae Grimoaldo, trawsfeddianwr ei gŵr, yn awr yn holi iddi ei briodi. Mae Rodelinda yn cytuno, ar yr amod bod Grimoaldo yn lladd ei mab ger ei bron, gan na all briodi traws-feddianwr ac ar yr un pryd barhau i fod yn fam i etifedd cyfreithlon yr orsedd. Gŵyr hi y bydd hyn yn gwneud i Grimoaldo ymddangos yn anghenfil di-drugaredd, ac yn unigolyn na fydd hi byth yn medru ei gofleidio. Mae ef yn ymwrthod â'r dynged hon.

Rodelinda, queen of Lombardy, believes herself to be widowed. Grimoaldo, her husband's usurper, now proposes to her. Rodelinda agrees, on condition that Grimoaldo kills her son before her eyes, as she cannot marry an interloper and simultaneously be mother to the rightful heir to the throne. She knows that this will make Grimoaldo appear a monster, one that she will never be able to embrace. He recoils from this fate.

**Eccomi in lieta vesta...O quante volte**. *I Capuleti ed i Montecchi* Bellini

Mae Giulietta yn caru Romeo ond mae'n cael ei gorfodi i briodi Tebaldo. Yn ei gwisg briodas hardd mae'n teimlo fel ysglyfaeth yn barod i'w harwain at yr allor a byddai'n well ganddi gael ei haberthu na phriodi dyn nad yw'n ei garu. Mae'n dyheu am i Romeo ei hachub.

Giulietta loves Romeo, but is being forced to marry Tebaldo. In her beautiful wedding dress she feels like a sacrificial victim ready to be led to the altar, and would prefer to be sacrificed than married to a man she does not love. She longs for Romeo to come to her aid.

**Temerari...Come scoglio** *Così fan tutte* Mozart

Mae dau ddieithryn yn canlyn Fiordiligi a'i chwaer Dorabella - mewn gwirionedd eu cariadon dan gochl ydyn nhw. Fiordiligi, y fwyaf didderbyn-wyneb o'r ddwy chwaer, sy'n canu'r geiriau hallt grymus yma am ffyddlondeb, gan ddweud y bydd ei theyrngarwch yn gadarn fel y graig er gwaethaf unrhyw demtasiwn.

Fiordiligi and her sister Dorabella are being wooed by two strangers, who are actually their lovers in disguise. Fiordiligi, the more strongminded of the sisters, delivers this strong diatribe on fidelity, saying that she will remain firm as a rock in her loyalty, despite all temptations.



## Jessica **Cale** — Soprano

Oed: **29**
Cyfeilydd: **George Ireland**

Mae'r soprano o Gymru, Jessica Cale, enillydd Gwobr Kathleen Ferrier 2020, yn ei blwyddyn olaf o astudio yn Stiwdio Opera Ryngwladol y Coleg Cerdd Frenhinol lle mae'n Ysgolor Robert Lancaster. Mae gan Jessica radd Meistr mewn Perfformio a enillodd â'r anrhydeddau uchaf yn y Coleg Cerdd Brenhinol ac â Gradd Ddosbarth Cyntaf ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae profiad operatig Jessica yn cynnwys perfformio rhannau Flaminia (Haydn, Il mondo della luna); Susan (Berkeley, A Dinner Engagement); yr ail forwyn briodas (Mozart, Le nozze di Figaro); Despina (Mozart, Cosi fan tutte, Gŵyl Opera Ryedale) a Serpetta (Mozart, The Garden of Disguises, Gŵyl Opera Ryedale) ac yn Opera Scenes y Coleg Cerdd Brenhinol: Blanche (Dialogues des Carmélites, Poulenc); Tina (Flight, Dove); Poppea (L'incoronazione de Poppea, Monteverdi); Juliette (Roméo et Juliette, Gounod); Musetta (La Bohème, Puccini); a Mélisande (Pelléas et Mélisande, Debussy).

Perfformiodd Jessica fel unawdydd ar gyfer Syr John Eliot Gardiner yn A Midsummer Night's Dream Mendelssohn yng Nghanolfan y Barbican; ar gyfer Paul McCreesh yn King Arthur a Fairy Queen Purcell gyda'r Gabrieli Consort; ac ar gyfer Mark Padmore yn Y dioddefaint yn ôl St Matthew Bach ledled Ewrop gyda'r Orchestra of the Age of the Enlightenment. Ymhlith ei hymrwymiadau diweddar fel unawdydd mae Elijah Mendelssohn yn y Philharmoniker, Berlin a Messiah Handel yn y Royal Albert Hall. Yn 2020 cyrhaeddodd Jessica rownd derfynol Cystadleuaeth Ganu Ryngwladol Gŵyl Handel Llundain ac yn 2019 cipiodd yr ail wobr yng Nghystadleuaeth Llais Rhyngwladol y Dyfodol Pendine yn Eisteddfod Llangollen.

Mae Jessica yn hynod ddiolchgar am gefnogaeth Gwobr Sybil Tutton Help Musicians UK Ymddiriedolaeth Iarlles Munster ac Ymddiriedolaeth Josephine Baker.

## Jessica **Cale** — Soprano

Age: **29**
Accompanist: **George Ireland**

Welsh soprano Jessica Cale, winner of the 2020 Kathleen Ferrier Award, is in her final studies at the Royal College of Music International Opera Studio where she is the Robert Lancaster scholar. Jessica holds a Master of Performance with distinction from the Royal College of Music, and a First Class Honours degree from Cardiff University.

Jessica's operatic experience includes the roles of Flaminia (Haydn, Il mondo della luna); Susan (Berkeley, A Dinner Engagement); Second Bridesmaid (Mozart, Le nozze di Figaro); Despina (Mozart, Cosi fan tutte, Ryedale Festival Opera) and Serpetta (Mozart, The Garden of Disguises, Ryedale Festival Opera) and in RCM Opera Scenes: Blanche (Dialogues des Carmélites, Poulenc); Tina (Flight, Dove); Poppea (L'incoronazione de Poppea, Monteverdi); Juliette (Roméo et Juliette, Gounod); Musetta (La Bohème, Puccini); and Mélisande (Pelléas et Mélisande, Debussy).

Jessica has performed as a soloist for Sir John Eliot Gardiner in Mendelssohn's A Midsummer Night's Dream at the Barbican Centre; for Paul McCreesh in Purcell's King Arthur and Fairy Queen with the Gabrieli Consort; and for Mark Padmore in Bach's St Matthew Passion across Europe with the Orchestra of the Age of the Enlightenment. Recent solo engagements include Mendelssohn's Elijah at the Berlin Philharmoniker and Handel's Messiah at the Royal Albert Hall. In 2020 Jessica was a finalist in the London Handel Festival International Singing Competition and in 2019 gained 2nd place in the Llangollen Eisteddfod Pendine International Voice of the Future Competition.

Jessica is hugely grateful for the support of a Help Musicians UK Sybil Tutton Award, the Countess of Munster Trust and the Josephine Baker Trust.

**Dies Bildnis ist bezaubernd schön** *Die Zauberflöte* Mozart

Mae'r Dair Foneddiges wedi rhoi loced i'r Tywysog Tamino ac ynddi finiatur o'r Dywysoges Pamina. Edrycha yntau ar y portread ac mae harddwch Pamina yn ei garfareddu.

The Three Ladies have given Prince Tamino a locket with a miniature of Princess Pamina. He looks at the portrait and is captivated by Pamina's beauty.

**Bleuet** Poulenc

Bleuet - 'y glas bach' – yw'r gair Ffrangeg am y blodyn, glas yr ŷd. Bu hefyd yn air slang am y dynion rheini a recriwtiwyd i wasanaethu ym Myddin Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, sef cyfeiriad at liw glaslwyd y wisg a wisgent amdanynt. Cafodd cerdd Apollinaire ei chyfansoddi ym 1917 ac ynddi cyfeirir at filwr 20-mlwydd oed. Er mor ifanc y mae, gwelodd gymaint. Mae ganddo ddewrder a chyfrwystra, ond mae'n fwy cyfarwydd â marwolaeth na bywyd, a gŵyr sut i farw wrth iddo ddringo o'r ffos ac i mewn i ddrycin y frwydr.

Bleuet - 'little blue' - is the French word for cornflower. It was also a slang term for new French army recruits in the First World War, referring to their grey-blue uniform. Apollinaire's poem was written in 1917 and is addressed to a 20-year-old soldier. He is so young, yet has seen so much. Bravery and cunning surround him, but he knows death better than life and will know how to die as he goes over the top into battle.

**Kuda, kuda, kuda vy udalilis** *Eugene Onegin* Tchaikovsky

Mae Lensky wedi herio Onegin i ymladd gornest wedi i Onegin fflyrtio gyda'i anwylyd, Olga. Mae'n disgwyl am ymddangosiad ei wrthwynebydd ac yn canu am ei ieuenctid a natur anochel ffawd. Dim ond ei gariad taug at Olga sy'n rhoi gobaith iddo.

Lensky has challenged Onegin to a duel after Onegin flirted with his beloved Olga. He waits for his rival and sings of his youth and the inevitability of fate. Only his love for Olga gives him hope.

**Che gelida manina** *La bohème* Puccini

Nosily Nadolig daeth Mimì, y wnaidwraig, i fyny'r grisiau i aflood Rodolfus, yn chwilio am dân i'w channwyll. Mae'n gollwng ei goriad yn y tywyllwch; caiff Rodolfo hyd iddo ac fel y cyffrdda eu dwylo mae'n sylwi bod ei llaw fach yn iasoer. Mae'n nhw'n syrthio mewn cariad.

On Christmas Eve, Mimì, a seamstress, has come to her neighbour Rodolfo's garret, looking for a light for her candle. She drops her key in the dark; Rodolfo finds it and as their hands touch, he notices how icily cold her little hand is. They fall in love.

## Rhys **Batt** — Tenor

Oed: **28**
Cyfeilydd: **César Cañón**

Mae Rhys James Batt wedi graddio o Brifysgol Caerdydd a'r Coleg Cerdd Brenhinol. Ar hyn o bryd mae'n astudio gyda John Evans, a chyn hynny wedi astudio gyda David Montague Rendall. Mae Rhys wedi ennill gwobrau lu a dyfarnwyd iddo nifer o ysgoloriaethau yn ystod ei astudiaethau yn cynnwys Gwobr Drapers de Turkenheim, gwobrau canu Syr Geraint Evans a David Lloyd a Chystadlaeth Lieder y Coleg Cerdd Brenhinol. Ar hyn o bryd mae Rhys yn Kor Tenor gyda'r Den Norske Opera a bu'n aelod o Gorws Gŵyl Opera Glyndebourne yn 2019. Mae ei rannau diweddar ac ar y gorwel wedi cynnwys La Rememdado yn Carmen, Jaquino yn Fidelio a Nikolios yn The Greek Passion gyda Den Norske Opera. Mae galw am Rhys hefyd fel unawdydd oratorio gyda'i berfformiadau diweddar yn cynnwys y Johannes Passion yng Ngŵyl Cheltenham, St Nicolas gan Britten a Requiem Verdi.



## Rhys **Batt** — Tenor

Age: **28**
Accompanist: **César Cañón**

Rhys James Batt is a graduate of Cardiff University and the Royal College of Music and he currently studies with John Evans, having previously studied with David Montague Rendall. Rhys won many prizes and was awarded multiple scholarships during his studies including the Drapers de Turkenheim Award, the Sir Geraint Evans and David Lloyd singing awards and the Royal College of Music Lieder Competition. Rhys is currently a Kor Tenor at Den Norske Opera and was a member of the Glyndebourne Festival Opera Chorus in 2019. Recent and upcoming roles include La Rememdado in Carmen, Jaquino in Fidelio and Nikolios in The Greek Passion at Den Norske Opera. Rhys is also in demand as an oratorio soloist with recent performances ranging from Johannes Passion at The Cheltenham Festival to Britten's St Nicolas and Verdi's Requiem.

**Da tempeste il legno infranto** *Giulio Cesare* Handel

Mae Cleopatra wedi cael ei dal gan ei brawd dichellgar, Tolomeo, ond mae ei chariad Caesar yn ei rhyddau cyn iddi gael ei lluchio i garchar. Cana Cleopatra am y frwydr sydd i ddilyn, yn siwr mai Caesar fydd yn trechu.

Cleopatra has been captured by her treacherous brother, Tolomeo, but her lover Caesar liberates her before she can be thrown into prison. Cleopatra sings of the battle that will follow, sure of Caesar's victory

**Giunse alfin il momento… Deh vieni, non tardar**. *Le nozze di Figaro* Mozart

Newydd briodi Figaro, mae Susanna yn cynllwynio gyda'r Iarlles, ei chyflogwr, i dwyllo'r Iarll i feddwl y bydd Susanna yn ei gyfarfod yn yr ardd i gadw oed rhamantaidd. Gŵyr Susanna fod Figaro yn cuddio yn y cysgodion, yn sbecian arni, felly mae'n penderfynu dysgu gwers iddo am iddo amau ei ffyddlondeb. Mae'n galw ar ei chariad i beidio ag oedi ac i ddod i'w chyfarfod yn y llwyni rhosod.

Susanna, recently married to Figaro, is plotting with the Countess, her employer, to trick the Count into thinking that Susanna will meet him in the garden for a romantic assignation. Susanna knows that Figaro is hiding in the shadows, spying on her, so she decides to teach him a lesson for doubting her fidelity. She calls for her lover not to delay and to come to meet her among the rose bushes.

**Das Rosenband** Strauss Op. 36, no. 1

Yn 'Y rhuban rhosynnau', mae'r canwr yn dod o hyd i'w gariad, yn cysgu yng nghysgod y gwanwyn. Mae'n ei chlymu mewn rhubanau lliw rhosyn ac yn syllu arni wrth iddi gysgu. Mae'n sibrwd wrthi ac yn ysgwyd y rhubanau. Pan mae'n deffro ac yn syllu arno, mae ef yn y nefoedd. Mae'r gerdd gan Klopstock.

In 'The rose ribbon', the singer finds his beloved, asleep in the spring shade. He binds her up in rose-coloured ribbons and gazes upon her as she sleeps. He whispers to her and rustles the ribbons and when she wakes up and gazes at him, he is in heaven. The poem is by Klopstock.

**O légère hirondelle** *Mireille* Gounod

Mae Mireille yn gyfoethog o fod wedi etifeddu cryn dipyn o arian, ac mae sawl dyn yn dymuno ei phriodi. Ond mae hi mewn cariad â'r gwehydd basgedi tlawd, Vincent. Yn yr valseariette ystwyth hon, mae Mireille yn galw ar y wennol wibiog i hedfan yn llawen at ei hanwylyd a chyhoeddi ei chariad wrtho. Holwyd i Gounod ychwanegu'r darn hwn gan ddehonglydd cyntaf y rhan hon, Caroline Carvalho, er mwyn cydfynd â'i harddull coloratura.

Mireille is a rich heiress, with several men wanting to marry her. But she is in love with a poor basketweaver, Vincent. In this agile valse ariette, Mireille calls upon the nimble swallow to fly joyfully to her beloved and tell him that she loves him. Gounod was asked to include this by the first interpreter of the title role, Caroline Carvalho, to suit her coloratura technique.



## Sarah **Gilford** — Soprano

Oed: **29**
Cyfeilydd: **Ewa Danilewska**

Mae'r Soprana Brydeinig, Sarah Gilford yn aelod ar hyn o bryd o'r Bayerische Staatsoper Opera Studio ym Munchen. Ymhlith y rhannau iddi eu perfformio yn ystod tymor 2020/21 oedd y brif ran yn *Mignon*, Giannetta *L'Elisir d'Amore*, Taumännchen *Hänsel und Gretel*, Der junger Hirt *Tannhäuser* a Barbarina *Le Nozze di Figaro*.

Mae ei rhannau amlwg eraill yn cynnwys Papagena *Die Zauberflöte*, Susanna *Le Nozze di Figaro*, Cleopatra *Marc'Antonio et Cleopatra* (Hasse) ac Alison *The Wandering Scholar* (Holst).

Pan oedd hi'n gorffen ei hastudiaethau yn yr Academi Cerdd Brenhinol cafodd Sarah ei chydnabod a'i chefnogi gan Samling, Ymddiriedolaeth Gerddorol Imogen Cooper a Leeds Lieder. Dyfarnwyd iddi hefyd Wobr Isabel Jay, Ysgoloriaeth W. Towyn Roberts a chyrhaeddodd rownd derfynol y Llwyfan Cantorion Cymreig yn 2018.

Mae'r cyfleodd y mae Sarah wedi eu cael trwy Gyfres Cantata RAM/Kohn Bach a Chylch caneuon RAM wedi ei pharatoi'n dda ar gyfer y nifer fawr o ddatganiadau a chyngherddau y mae wedi perfformio ynddynt ledled yr Almaen. Yn ddiweddar mae wedi bod yn perfformio Goethe-Lieder Fazil Say gyda'r Georgisches Kammerorchester.

## Sarah **Gilford** — Soprano

Age: **29**
Accompanist: **Ewa Danilewska**

British soprano Sarah Gilford is currently a member of the Bayerische Staatsoper Opera Studio in Munich. Her roles for the 2020/21 season include the title role in *Mignon*, Giannetta *L'Elisir d'Amore,* Taumännchen *Hänsel und Gretel*, Der junger Hirt *Tannhäuser* and Barbarina *Le Nozze di Figaro*.

Other notable roles include Papagena *Die Zauberflöte*, Susanna *Le Nozze di Figaro*, Cleopatra *Marc'Antonio et Cleopatra* (Hasse) and Alison *The Wandering Scholar* (Holst)

While completing her studies at the Royal Academy of Music, Sarah was recognised and supported by Samling, the Imogen Cooper Musical Trust and Leeds Lieder. She was also awarded the Isabel Jay Prize, the W. Towyn Roberts Scholarship and was a finalist for the Welsh Singers Showcase 2018.

The opportunities Sarah received through RAM/Kohn Bach Cantata Series and RAM Song Circle prepared her well for the many recitals and concerts she now gives across Germany. Most recently she performed Fazil Say's Goethe-Lieder with the Georgisches Kammerorchester.

**What power art thou? (The Cold Song)** *King Arthur* Purcell

Mae lledopera Purcell yn cynnwys Golygfa'r Rhew sef masque, ynteu drama o fewn drama. Mae Cupid wedi deffro Ysbryd y Gaeaf, mewn ymdrech i doddi hirlwm y gaeaf. Cwyna'r ysbryd o glywed ei orchymyn iddo godi o'i wely clyd o eira.

Purcell's semi-opera includes the Frost Scene, a masque, or a play within a play. Cupid has awoken the Spirit of Winter, in a bid to bring love's warmth to melt the winter chill. The Spirit grumbles at this command to rise from his comfortable snowy bed.

**Y Gwanwyn Du** T. Osborne Roberts

Yn Y Gwanwyn Du mae'r canwr yn nodi y daw'r gwanwyn yn ôl i Eifionydd. Daw'r awyr las dros y môr saffir; bydd yr haul yn esgor ar flodau a blagur; bydd adar, pysgod a'r elyrch yn dychwelyd i gefn gwlad. Ond dim ond duwch dudew a wêl y canwr – ni ddaw ei anwylyd byth yn ôl. Mae ei llygaid glas bellach ar gau am byth yn nyfnder y môr.

In 'The black spring', the singer notes that springtime will return to Eifionydd. The blue sky is over the blue sea; the sunshine brings blossoms and buds; birds, fish and swans return to the countryside. But he sees only blackness, as his beloved will never return. Her blue eyes are now closed in the sea.

**Ahimè! Dove trascorsi?...Che farò senza Euridice** *Orfeo ed Euridice* Gluck

Bu farw annwyl wraig Orfeo, Euridice, a rhoddodd Ciwpid wybod iddo fod modd iddo fynd i'r Isfyd i gael hyd iddi a'i dwyn yn ôl, cyhyd â'i fod yn peidio ag edrych arni nes iddyn nhw gyrraedd y ddaear yn ôl. Ar y ffordd mae Orfeo yn troi tuag ati er mwyn ei darbwyllo ei fod yn dal i'w charu ac mae hi'n marw drachefn. Yma, mae'n rhoi'r ffrwyn i'w ofid yn yr alargan hon.

Orfeo's beloved wife, Euridice, has died and Orfeo has been told by Cupid that he can go to the Underworld to find her and bring her back, providing he does not look at her until they are back on earth. On the way, Orfeo does turn to her, to convince her that he does still love her and she dies again. Here, he gives rein to his grief in this lament.

**Träume** *Wesendonck Lieder no.5* Wagner

Mathilde Wesendonck oedd ffynhonnell awen Wagner, ac o bosib ei gariad a'i feistres. Gosododd gerddoriaeth ar gyfer pump o'i cherddi, un o'r ychydig droeon iddo ddefnyddio geiriau rhywun arall. Cyfeiriai Wagner at y gân hon fel astudiaeth ar gyfer Tristan und Isolde. Cyfeiria'r testun at freuddwydion rhyfeddol sy'n amgylchynu'r synhwyrau, ac yn dod yn fwy llesmeiriol bob dydd. Ond ar ôl iddynt flodeuo, diflannu wnânt heb adael ddim o'u hol ym mynwes yr anwylyd.

Mathilde Wesendonck was Wagner's muse, and possibly his mistress. He set five of her poems to music, one of the few times he was to use someone else's words. Wagner termed this song as a study for Tristan und Isolde. The text talks of amazing dreams which embrace her senses, growing more blissful every day. But after they have bloomed like a flower, they disappear without trace on the lover's breast.

**A route to the sky** *Paper wings no.4* Heggie

Gosododd Jake Heggie y pedair cân hyn i eiriau gan Frederica von Stade ym 1997, a chomisiynwyd y gosodiad gan Frederica von Stade a'i chyflwyno i'w merch, Lisa Elkus. Cychwynna'r gân gyda chyfeiriad mwys at 'Für Elise' Beethoven, a'r geiriau: 'Dysgodd fy mam fi i hedfan … ond daeth y dyn tân â mi yn ôl i lawr.' Mae'n parhau gyda hanesyn ynghylch sut, pan oedd Lisa yn wyth oed, fe ddringodd allan trwy'r ffenest ac i fyny i'r to.

in 1997 Jake Heggie wrote these four songs to lyrics by Frederica von Stade, who commissioned the set and dedicated it to her daughter, Lisa Elkus. The song begins with a punning allusion to Beethoven's 'Für Elise', and the words: "My mother taught me to fly … but the fireman brought me down." It continues with an anecdote of how Lisa was eight when she climbed out of the window onto the roof.



## Kieron-Connor **Valentine** — Counter-tenor

Oed: **25**
Cyfeilydd: **Marlowe Fitzpatrick**

Yn enillydd Gwobr Bath Opera Isobel Buchanan 2019, graddiodd yr uwchdenor o Gymru Kieron-Connor Valentine o Goleg Brenhinol Cerdd y Gogledd ym Manceinion, lle bu'n astudio gyda David Lowe ac yn astudio hefyd yn y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru dan oruchwyliaeth Adrian Thompson ac Anne Mason. Yn ystod ei gyfnod yng Ngholeg Brenhinol Cerdd y Gogledd perfformiodd Oberon yn A Midsummer Night's Dream Britten, dan arweiniad Andrew Greenwood a Didymus yn Theodora Handel, dan arweiniad Roger Hamilton.

Y tymor hwn ymunodd Kieron ag Ysgol Opera Ysgol Gerdd a Drama'r Guildhall dan oruchwyliaeth John Evans.

Yn 2018 ymunodd Kieron-Connor â rhaglen Britten-Pears yng Ngŵyl Aldeburgh gan berfformio rhan Didymus yn Theodora.

Ymhlith ei uchafbwyntiau perfformio hyd yma mae datganiad o ganeuon o gyfnod y Dadeni a Baróc yn Neuadd Cadogan, bod yn ddirprwy ar gyfer rhannau yn Nhŷ Opera Glyndebourne yn ystod 2019; taith o gwmpas y DU gyda'r Military Wives ac ymddangos am y tro cyntaf yn BBC Proms yn rhan The Lost Boy yn y premiere o The Water Diviners Tale, dan arweiniad David Charles Abell.

Mae ei lwyddiannau mewn cystadlaethau yn cynnwys ennill gwobr Canwr Opera Ifanc y Flwyddyn Gwobr Goffa Douglas Rees 2018 a Chanwr Opera Ifanc Cymru Dunraven 2018. Dros y blynyddoedd mae wedi ennill gwobr fel Canwr y Flwyddyn Southport; Canwr y Flwyddyn Lerpwl; Canwr Ifanc y Flwyddyn Y Stiwt; Gwobr Canwr Ifanc Mwyaf Addawol y Flwyddyn Lerpwl a Chanwr Cymreig y Flwyddyn Côr Orffews Treforus 2018

## Kieron-Connor **Valentine** — Counter-tenor

Age: **25**
Accompanist: **Marlowe Fitzpatrick**

Winner of the 2019 Bath Opera Isobel Buchanan award, Welsh counter-tenor Kieron-Connor Valentine is a graduate of the Royal Northern College of Music, Manchester, where he studied with David Lowe, and the Royal Welsh College of Music and Drama where he studied with Adrian Thompson and Anne Mason. During his time at the RNCM he performed Oberon in Britten's A Midsummer Night's Dream, conducted by Andrew Greenwood and Didymus in Handel's Theodora, conducted by Roger Hamilton.

This season, Kieron joined the Opera School at the Guildhall School of Music and Drama under the tutelage of John Evans.

In 2018 Kieron-Connor joined the Britten-Pears Programme at Aldeburgh Festival in the role of Didymus in Theodora.

Performance highlights to date include a recital of Renaissance and Baroque song at Cadogan Hall, covering roles at Glyndebourne during 2019; a UK tour with the Military Wives and his début at the BBC Proms as The Lost Boy in the world premiere of The Water Diviners Tale, conducted by David Charles Abell.

Competition success includes the 2018 Douglas Rees Memorial Young Opera Singer of the Year and the 2018 Dunraven Welsh Young Singer. Over the years, he has won the titles of Southport Singer of the Year; Liverpool Singer of the Year; The Stiwt Young Singer of the Year; Liverpool's Most Promising Singer of the Year Award and 2018 Morriston Orpheus Welsh Singer of the Year.

**Senza Mamma** *Suor Angelica* Puccini

Mae'r Chwaer Angelica, yn nheitl yr opera, wedi byw mewn lleiandy am saith mlynedd. ar ôl cael ei gorfodi i wneud hynny gan ei theulu ar ôl rhoi genedigaeth i blentyn anghyfreithlon. Yma, mae hi newydd glywed bod ei mab wedi marw. Yn llawn galar, mae'r Chwaer Angelica yn hiraethu am ei babi sydd wedi marw heb ei fam ac yn penderfynu lladd ei hun er mwyn cael ymuno â'i mab yn y nefoedd.

Sister Angelica of the opera's title has lived in a convent for seven years, having been forced to take the veil by her family after giving birth to an illegitimate child. Here, she has just learned that her son has died. Overcome by grief, Sister Angelica laments that her baby died without his mother and decides to take her own life so she can join her son in heaven.

**Piangerò la sorta mia** *Giulio Cesare* Handel

Cred Cleopatra bod y frwydr ar ben a bod Cesar yn farw. Yn yr aria enwog hon, wedi ei gosod i bennill pedair llinell, mae'n galarnadu â chwerwder mawr ac yn gwneud addewid pan fydd hithau farw, y bydd hi'n troi'n ysbryd fydd yn aflonyddu ar y gelyn ddydd a nos.

Cleopatra believes that the battle is over and that Caesar is dead. In this famous aria, set to a quatrain, she mourns with great bitterness and promises that in death she will become a ghost and haunt the enemy night and day.

**Crudele... Non mi dir** *Don Giovanni* Mozart

Mae Donna Anna yn galaru dros farwolaeth ei thad, y Commendatore, a lofruddiwyd gan Don Giovanni. Mae dyweddi Donna Anna, Don Ottavio, yn dwyn pwysau arni i'w briodi ond mae hi'n gofyn iddo beidio â sôn am briodas a hithau'n llawn galar fyth.

Donna Anna is mourning the death of her father, the Commendatore, who has been murdered by Don Giovanni. Donna Anna's betrothed, Don Ottavio, is putting pressure on her to become his wife, but she asks him not to speak of marriage while she is still full of grief.



## Rachael **Marsh** — Soprano

Oed: **28**
Cyfeilydd: **David Doidge**

Mae Rachael Marsh yn soprano telynegol llawn o Wrecsam, gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae'n astudio ar gwrs Meistr Technegau Lleisiol Uwch yn Academi Ryngwladol y Llais yng Nghymru dan oruchwyliaeth y tenor o fri rhyngwladol, Dennis O'Neill. Cyn hynny hyfforddwyd Rachael gan y soprano Anne Williams-King. Cyrhaeddodd Rachael rownd derfynol Lleisiau'r Dyfodol Eisteddfod Rhyngwladol y Llais Llangollenyn 2018. Ers hynny, mae wedi perfformio fel diprwy yn rhan Iarlles Almaviva ar gyfer cynhyrchiad Opera Canolbarth Cymru o Marriage of Figaro (Gwanwyn2020). Yn ogystal mae wedi gweithio gyda Stiwdio Opera Gogledd Cymru ym mhrif ran Suor Angelica ac mewn nifer o gyngherddau lle llwyfannwyd golygfeydd. Mae Rachael wedi perfformio gyda cherddorfa Amwythig dan faton John Moore; Cerddorfa Symffoni Wrecsam gyda'r arweinyddion gwâdd Russel Gray a Richard Howarth; mae wedi cydweithio a pherfformio hefyd gyda nifer o Gorau Meibion yn cynnwys Côr Meibion Rhos yng Ngŵyl Gerdd Ripon eleni.

Mae Rachael wedi cael y fraint o weithio mewn meistr wersi gyda Della Jones, Barry Banks, Kim Begley, Liz Collier, Ryland Davies a Susan Bullock. Mae wedi cael sesiynau hyfforddi hefyd gan Gareth Jones, Linda Kitchen, Jane Samuel ac Anthony Negus.

Yn ystod 2020 cafodd ymrwymiadau lu eu gohirhio o ganlyniad i Cofid, yn cynnwys Cyngerdd Opera Mawreddog gyda Cherddorfa Ffilharmonig Caerdydd yn Neuadd Dewi Sant a nifer o gyngherddau oratorio ledled Cymru.

## Rachael **Marsh** — Soprano

Age: **28**
Accompanist: **David Doidge**

Rachael Marsh is a full, lyric soprano from Wrexham, North Wales. She is currently studying a Masters in Advanced Vocal Technique in Wales International Academy of Voice under the internationally renowned tenor, Dennis O'Neill. Previous to this, Rachael was under the tutorage of soprano Anne Williams-King. Rachael is a previous runner-up of the Llangollen International Eisteddfod's Voice of the Future in 2018. Since then, she has performed alongside and covered Countess Almaviva for Mid Wales Opera's Marriage of Figaro (Spring 2020). She has also worked with the North Wales Opera Studio in the title role of Suor Angelica and as part of many staged scenes concerts. Rachael has performed with Shrewsbury Orchestra under the baton of John Moore; Wrexham Symphony Orchestra with guest conductors Russel Gray and Richard Howarth; she has also collaborated with and sung alongside many Male Voice choirs including Rhos Male Voice choir in this year's Ripon Music Festival.

Rachael has had the privilege to work in masterclasses given by Della Jones, Barry Banks, Kim Begley, Liz Collier, Ryland Davies and Susan Bullock. She has also received coaching sessions from Gareth Jones, Linda Kitchen, Jane Samuel and Anthony Negus.

She had many engagements coming in 2020 postponed due to COVID, including an Opera Spectacular concert with Cardiff Philharmonic in St David's Hall and other oratorio concerts within Wales.

# Pianyddion Swyddogol Official Pianists





## David **Doidge**

David Doidge yw Corws Feistr Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru. Fel cyn aelod o'i staff cerddorol, mae wedi gweithio'n rhyngwladol gyda'r cyn arweinwyr o fri Carlo Rizzi, Lothar Köenigs, Tomáš Hanus, Ainars Rubikis ac Erik Nielsen ac ymhlith yr uchafbwyntiau mae Tosca, Don Giovanni, Eugene Onegin a Der Rosenkavalier. Yn 2019 roedd yn arweinydd cynorthwyol a répétiteur ar gyfer Tosca yng Ngŵyl Abu Dhabi gyda Syr Bryn Terfel, Kristine Opolais, Vittorio Grigolo a Sinfonia Cymru dan arweiniad Gareth Jones.

Yn artist sy'n cael ei weld yn gyson yng Nghymru mae David wedi perfformio yn Neuadd Wigmore, y Royal Albert Hall, Y Neuadd Ŵyl Frenhinol, St Martin in-the-Fields, Leeds Lieder a Gŵyl Ryngwladol Caeredin ac yn Los Angeles, Rhufain, Ischia, Oman a Brwsel. Ymhlith ei bartneriaid mewn datganiadau mae Rebecca Evans, Nuccia Focile, Gwyn Hughes Jones, Alfie Boe a Trystan Llŷr Griffiths.

Mae David wedi bod yn rhan o ddarllediadau byw a recordiadau ar gyfer BBC Radio Wales, Classic FM a BBC Radio 3, yn ogystal ag ymddangosiadau teledu gyda Syr Bryn Terfel, Katherine Jenkins a Connie Fisher. Mae wedi cydweithio hefyd ar nifer o deithiau arena y West End yn cynnwys Disney's Beauty and the Beast Live in Concert, dan arweiniad David Mahoney, a gyda Lesley Garrett, Lucie Jones, Kerry Ellis, Ruthie Henshall a John Owen-Jones.

Mae David yn hyfforddwr sy'n ymweld ag Adran Leisiol Ysgol Opera Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac Academi Llais Ryngwladol Cymru. Ers dwy flynedd bu'n arweinydd cynorthwyol a hyfforddwr ar gyfer Côr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru ac mae'n Ymgynghorydd Cerdd ar gyfer Decca Records.

David Doidge is Chorus Master at Welsh National Opera. As a previous member of music staff, he has worked with internationally acclaimed conductors Carlo Rizzi, Lothar Köenigs, Tomáš Hanus, Ainars Rubikis and Erik Nielsen with highlights including Tosca, Don Giovanni, Eugene Onegin and Der Rosenkavalier. In 2019 he was assistant conductor and répétiteur for Tosca at the Abu Dhabi Festival with Sir Bryn Terfel, Kristine Opolais, Vittorio Grigolo and Sinfonia Cymru conducted by Gareth Jones.

A regular artist in Wales, David has appeared in performance at Wigmore Hall, Royal Albert Hall, Royal Festival Hall, St Martin in-the-Fields, Leeds Lieder and the Edinburgh International Festival and in Los Angeles, Rome, Ischia, Oman and Brussels. Recital partners include Rebecca Evans, Nuccia Focile, Gwyn Hughes Jones, Alfie Boe and Trystan Llŷr Griffiths.

David has featured in live broadcasts and recordings for BBC Radio Wales, Classic FM and BBC Radio 3, as well as television appearances with Sir Bryn Terfel, Katherine Jenkins and Connie Fisher. He has also collaborated on several West End arena tours including Disney's Beauty and the Beast Live in Concert, conducted by David Mahoney, and with Lesley Garrett, Lucie Jones, Kerry Ellis, Ruthie Henshall and John Owen-Jones.

David is a visiting coach for the Opera School and Vocal Performance department at the Royal Welsh College of Music and Drama and at the Wales International Academy of Voice. For two years he has been assistant conductor and coach for National Youth Choir of Wales and is Music Advisor to Decca Records.

## George **Ireland**

Graddiodd George Ireland gyda'r clod uchaf o'r Coleg Cerdd Brenhinol, lle bu'n astudio Piano Cydweithredol gyda Simon Lepper a Roger Vignoles. Cefnogwyd ei astudiaethau yna gyda gwobr Kendall-Taylor, y Sefydliad Pimlott, Ymddiriedolaeth Elusennol Hervey Benham a Cronfa Goffa Tom Acton.

Does dim cerddoriaeth ganddo o ran ei gefndir a dim ond yn 14 y dechreuodd ganu'r piano, a hynny ei hun, ac o'r lefel isaf. Bellach mae'n 26, ac â gyrfa brysur a chryn alw am ei wasanaeth fel pianydd cydweithredol yma a thramor.

Yn 2019 bu'n rhan o brosiect Lieder a oedd yn mynd i'r afael â cherddoriaeth y cyfansoddwr Emigre Robert Kahn, ac bu'n bleser ganddo berfformio yn y Coleg Cerdd Brenhinol, Llysgendaeth yr Almaen yn Llundain a'r Akademie Der Künste ym Merlin. Yn ddiweddar rhoddodd ei berfformiad cyntaf o Winterreise Schubert's yn Bielefeld gyda'r soprano Daniela Bechley, a adolygwyd fel â ganlyn yn y Neue Westfälische:

*"Profodd y rhai a oedd yn bresennol sut yr archwiliodd y gantores a'r pianydd y cylch tywyll a grymus hwn, a sut y llwyddodd y ddau i ddal natur craidd hanfodol tu hwnt i amser y campwaith hwn. Roedd ganddynt nid dim ond y gallu cerddorol, ond hefyd y berthynas fewnol i fedru dehongli'r 'Winterreise' mewn ffordd hynod deimladwy".*

Mae George yn Artist Ifanc Leeds Lieder, ac yng ngŵyl 2019 mwynhaodd mestr wersi gyda'r mezzo-soprano Laura Fleur dan arweiniad Ann Murray ac Amanda Roocroft. Ers hynny mae wedi mwynhau meistr wersi gyda Helmut Deutsch, Roderick Williams a'r Fonesig Sarah Connolly.

Yn 2020 cyfeiliodd George i Jessica Cale yn y perfformiad a enillodd iddi wobr Kathleen Ferrier, ac maent yn mwynhau partneriaeth barhaus adeiladol.

George Ireland graduated with Distinction from the Royal College of Music, where he studied Collaborative Piano with Simon Lepper and Roger Vignoles. His studies were supported by the Kendall-Taylor award, Pimlott Foundation, Hervey Benham Charitable Trust and Tom Acton Memorial Trust.

He is from a non-musical background and only began to play the piano, self taught and from scratch, at the age of 14. Now 26, he enjoys a busy career as an in-demand collaborative pianist in this country and abroad.

In 2019 he was involved in a Lieder project exploring the music of Emigre composer Robert Kahn, and enjoyed performances at the RCM, the German Embassy in London and the Akademie Der Künste in Berlin. He recently gave his first performance of Schubert's Winterreise in Bielefeld with soprano Daniela Bechley, which was reviewed in Neue Westfälische:

*"Those present experienced how the singer and pianist explored this dark and powerful cycle, and that two people had captured a timelessly significant masterpiece entirely in its essential core. They had not only the musical class, but also the inner relationship to interpret the 'Winterreise' movingly".*

George is a Leeds Lieder Young Artist, and at the 2019 festival enjoyed masterclasses with mezzo-soprano Laura Fleur given by Ann Murray and Amanda Roocroft. He has since enjoyed masterclasses with Helmut Deutsch, Roderick Williams and Dame Sarah Connolly.

In 2020 George accompanied Jessica Cale in her Kathleen Ferrier Award-winning performance, and they enjoy a fruitful ongoing partnership.

# Pianyddion Swyddogol  Official Pianists



## César **Cañón**

Mae César Cañón yn treulio ei amser fel pianydd ac arweinydd ac ar adegau eraill yn dysgu ac yn hyfforddwr lleisiol. Mae wedi perfformio a chydweithio ar lwyfannau yng Ngholumbia, ei wlad enedigol yn ogystal â Brasil, Canada, yr Eidal, Mecsico, Norwy a led-led yr UDA. Mae gan Cañón raddau mewn perfformio ar y piano oddi wrth Brifysgol Genedlaethol Colombia ac mewn Piano Cydweithredol oddi wrth Brifysgol Michigan, ac yno hefyd y cafodd radd Meistr a gradd Doethur mewn Celfyddyd Gerddorol dan fentoriaeth y pianydd enwog Martin Katz.

Mae'n gyn-fyfyriwr hefyd o Ganolfan Theatr yr Opera Aspen, rhaglen Opera Merola a chymrodoriaeth Opera Adler San Francisco. Mae wedi bod yn ddarlithydd gwadd a pherfformiwr mewn sawl prifysgol yn Colombia a led-led yr UDA, yn cynnwys cyfnodau preswyl ym Mhrifysgol Talaith Michigan, Prifysgol Michigan, Prifysgol Emory, a Phrifysgol Texas yn Austin. Yn ddiweddar mae wedi bod yn aelod o staff dysgu adrannau'r llais ac opera yng Nghonservatoire Gerdd San Francisco ac yn aelod o staff cerddorol Opera San Fransisco. Tra yn ardal y bae bu'n gyfarwyddwr cerdd ar gyfer cynhyrchiad 2019

Pocket Opera o The Elixir of Love a chynhyrchiad o Don Giovanni yn 2020. Yn ystod hydref 2020, ymunodd ag Opera Cenedlaethol Norwy fel repetiteur opera a dirprwy feistr y corws.

César Cañón alternates his activities as a pianist and conductor with teaching and vocal coaching. He has performed and collaborated on stages in his native Colombia, as well as in Brazil, Canada, Italy, Mexico, Norway and across the United States. Cañón holds degrees in piano performance from the National University of Colombia and in Collaborative Piano from the University of Michigan, where he obtained a Masters and Doctor of Musical Arts degrees under the mentorship of celebrated pianist Martin Katz.

He is also an alumn of the Aspen Opera Theatre Center, the Merola Opera Program and San Francisco Opera's Adler Fellowship. He has been a guest lecturer and performer in several universities in Colombia and across the United States, including residencies at Michigan State University, University of Michigan, Emory University, and the University of Texas at Austin. Recently, he has been a member of the teaching staff of the voice and opera departments at the San Francisco Conservatory of Music, and the music staff of the San Francisco Opera.

While in the bay area, he was music director for Pocket Opera's 2019 production of The Elixir of Love and 2020 production of Don Giovanni. In the fall of 2020, he joined the Norwegian National Opera as opera repetiteur and assistant chorus master.



## Ewa **Danilewska**

Dechreuodd Ewa Danilewska ddysgu canu'r piano yn bump oed yn Ysgol Gerdd Fryderyk Chopin yn Opole dan gyfarwyddyd Celina Hellerowa. Mae hi wedi graddio o'r dosbarth piano yn Wojciech Świtała a dosbarth cerddoriaeth siambr Grzegorz Biegas yn Academi Gerdd Karol Szymanowski yn Katowice. Ers chwe mis, fel rhan o raglen Erasmus, bu'n astudio gyda Jan Gottlieb Jiracek von Arnim yn yr Universität für Musik und darstellende Kunst, yn Wien.

Mae wedi cipio nifer fawr o wobrau mewn cystadlaethau piano, yn cynnwys yr ail wobr yng Nghystadleuaeth Deuawdau ar y Piano Franz Schubert yn Jeseník, yn y Weriniaeth Tsiec (2011), y chweched wobr a gwobr arbennig am y perfformiad gorau o waith gan Claude Debussy yng nghystadleuaeth piano Fryderyk Chopin Gwlad Pwyl gyfan yn Warsaw (2012) a'r Wobr Gyntaf yng nghystadleuaeth ryngwladol 'Chopin Piano Roma' yn y categori deuawdau piano (2013).

Yn 2013, hi oedd llawryf y 'Llwyfan Ieuenctid' yng Ngŵyl Biano Gwlad Pwyl yn Słupsk. Fel unawdydd mae wedi perfformio hyd yma gyda Cherddorfeydd Ffilharmonig Opole, Rzeszów a Silesia, Cerddorfa Academi Gerdd Katowice, Cerddorfa Radio Gwlad Pwyl, a'r Camerata Pontresina (y Swistir).

Ers 2018 mae'n aelod o'r Stiwdio Opera gydag Opera Wladwriaethol Bafaria, Munchen.

Ewa Danilewska began learning piano aged five at the Fryderyk Chopin School of Music in Opole under Celina Hellerowa. She is a graduate of the piano class of Wojciech Świtała and the chamber music class of Grzegorz Biegas at the Karol Szymanowski Academy of Music in Katowice. For half a year, as part of the Erasmus programme, she studied with Jan Gottlieb Jiracek von Arnim at the Universität für Musik und darstellende Kunst Wien.

She has won prizes in many piano competitions, including Second Prize in the International Franz Schubert Piano Duet Competition in Jeseník, Czech Republic (2011), Sixth Prize and the special prize for the best performance of a work by Claude Debussy in the All-Poland Fryderyk Chopin Piano Competition in Warsaw (2012) and First Prize in the 'Chopin Piano Roma' International Competition in the piano duet category (2013).

In 2013, she was a laureate of the 'Youth Stage' at the Polish Piano Festival in Słupsk. As a soloist, she has performed to date with the Opole, Rzeszów and Silesian Philharmonic orchestras, the Orchestra of Katowice Music Academy, the Polish Radio Orchestra, Camerata Pontresina (Switzerland).

Since 2018 she's a member of the Opera Studio of the Bavarian State Opera, Munich.

# Pianyddion Swyddogol Official Pianists



## Marlowe **Fitzpatrick**

Mae Marlowe Fitzpatrick yn bianydd ac arweinydd o Sydney, Awstralia, ac ar hyn o bryd yn Artist Répétiteur Ifanc yn y Stiwdio Opera Genedlaethol yn Llundain.

Cyn hynny bu'n gyfeilydd llaw-rydd yn yr Eidal, Ffrainc a Sydney, ac yn Gorwsfeistr Cynorthwyol a Phrif Répétiteur Corau Ffilharmonia Sydney, corws preswyl Tŷ Opera Sydney.

Yn dilyn ei waith ar gynyrchiadau o fri rhyngwladol megis Peter Grimes gyda David Robertson, Stuart Skelton a Nicole Car, cafodd cytundeb Marlowe ei ymestyn er mwyn cynnwys taith y cwmni yn 2020 o'r DU a'r Almaen (a ohiriwyd).

Yn 2021 bydd yn mynychu cwrs Répétiteur uchel ei fri Georg Solti yn Fenis. Cefnogir Marlowe yn Llundain trwy haelioni Ymddiriedolaeth Theatr Elizabethaidd Awstralia ac Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Ian Potter.

Marlowe Fitzpatrick is a pianist and conductor from Sydney, Australia, currently a Young Artist Répétiteur at the National Opera Studio in London.

Previously a freelance accompanist in Italy, France, and Sydney, he was also the Assistant Chorusmaster and Principal Répétiteur of the Sydney Philharmonia Choirs, the resident chorus at the Sydney Opera House.

After his work on acclaimed international productions such as Peter Grimes with David Robertson, Stuart Skelton and Nicole Car, Marlowe's contract was extended for the company's 2020 tour to the UK and Germany (postponed).

In 2021 he will attend the prestigious Georg Solti Répétiteur Course in Venice. Marlowe is supported in London by the generosity of the Australian Elizabethan Theatre Trust and the Ian Potter Cultural Trust.

# Y **Rheithgor** The **Jury**

Bu Julian Smith yn Ymgynghorydd Cerdd ar gyfer Cystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd am dros ugain mlynedd, gan gynnal clyweliadau bob dwy flynedd er mwyn dethol y cystadleuwyr. Mae wedi bod yn gadeirydd y beirniaid ar gyfer Cystadleuaeth Cantorion Cymreig ers 2000.

Roedd Julian yn aelod o Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru am flynyddoedd maith, fel Meistr y Corws a'r Pennaeth Cerddoriaeth. Fel arweinydd arbenigodd yn repertoire yr Eidal, yn arbennig cyfnod y bel canto a Puccini, a bu'n arwain dros ddeugain opera ar gyfer y Cwmni Opera. Fel arweinydd gwadd mae wedi performio gydag Opera Australia, Scottish Opera, Vancouver Opera, Iceland Opera, the New Zealand Opera, Glyndebourne Touring Opera, Opera Zuid a San Francisco Opera.

Mae Julian wedi arwain cyngherddau a oedd yn cynnwys llu o gantorion adnabyddus, yn cynnwys Bryn Terfel, Renée Fleming, Dennis O'Neill a Sherrill Milnes. Mae wedi arwain yn fynych ar gyfer y teledu ac wedi recordio albymau o ddatganiadau gan gerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru. Fel Cerddolegwr ailluniodd Julian Smith fersiwn gwreiddiol Madama Butterfly. Mae'r fersiwn hwnnw wedi ei berormio yn Fenis, Paris, ac Efrog Newydd, gan Opera North ym Mhrydain, ac agorodd dymor 2016-17 yn La Scala, Milan, ac fe'i darlledwyd ar deledu i filiynau ar draws y byd.

Julian Smith was the Music Advisor to the BBC Cardiff Singer of the World Competition for over twenty years, auditioning around the world every two years to select the competitors. He has been chairman of the jury of the Welsh Singers Competition since 2000.

Julian was a member of Welsh National Opera for many years, both as Chorus Master and Head of Music. As a conductor he specialised in Italian repertoire, particularly the bel canto period and Puccini, and conducted over forty operas for WNO. As a guest conductor he performed with Opera Australia, Scottish Opera, Vancouver Opera, Iceland Opera, the New Zealand Opera, Glyndebourne Touring Opera, Opera Zuid and the San Francisco Opera. Julian has conducted concerts featuring many distinguished singers, including Bryn Terfel, Renée Fleming, Dennis O'Neill and Sherrill Milnes.

He has conducted frequently for television and has recorded recital albums with the Orchestra of Welsh National Opera. As a musicologist Julian Smith reconstructed the original version of Madama Butterfly. This edition has been performed in Venice, Paris, and New York, by Opera North in Britain, and opened the 2016-17 season at La Scala, Milan, when it was also broadcast and televised to millions worldwide.



## Julian **Smith**

Cadeirydd / Chairman

Mae Dennis O'Neill wedi ymddangos ar lwyfannau'r prif dai opera ledled y byd, gan arbenigo ar ganu Verdi a dyfarnwyd iddo Fedal Verdi gan yr Amici di Verdi i gydnabod ei waith.

Mae wedi bod â pherthynas hir â'r Tŷ Opera Brenhinol Covent Garden, gan baratoi ar gyfer y prif rannau mewn dros ddau gant o berfformiadau o brif gymeriadau Verdi.

Mae wedi ymddangos gyda rhai o brif gwmnïau Gogledd America yn cynnwys Cwmni Opera'r Metropolitan, San Francisco Opera a'r Chicago Lyric Opera.

Yn Ewrop mae wedi ymddangos ar lwyfannau ledled y cyfandir a Sgandinafia, yn fwyaf penodol ar gyfer Opera Gwladol Bafaria, Opera Gwladol Fienna, Paris Opera, Opera Gwladol Berlin, Deutche Oper Berlin, Arena di Verona ac (ar daith gyda La Scala) yn y Theatr y Bolshoi Moscow.

Dyfarnwyd iddo CBE am wasanaethau i'r byd Opera, gyda chydnabyddiaethau eraill yn cynnwys OStJ, (Urdd St Ioan) a Hon RAM (aelodaeth er anrhydedd o'r Academi Gerdd Frenhinol).

Ymhlith ei recordiadau a deunydd fideo masnachol mae Der Rosenkavalier (Solti), Requiem Verdi (Colin Davis), Macbeth (Sinopoli), Idomeneo (Mackerras), La Fanciulla del West (Slatkin) a Mefistofole (San Francisco Opera), La Boheme, Cavalleria Rusticana, I Pagliacci, Aida, Turandot a nifer o ddisgiau o ddatganiadau unigol.

Mae wedi darparu meistrwersi ac wedi gweithredu fel beirniad mewn nifer o gystadlaethau rhyngwladol mewn llefydd megis Awstralia, Seland Newydd, Siapan , Tsieina, Groeg, Ffrainc, yr Eidal, yr Almaen, Rhaglen i Gantorion Ifanc yn Covent Garden Cystadleuaeth Tchaikovsky a Chystadlaethau Vishneskaya ym Moscow.

Ef yw sylfaenydd a Chyfarwyddwr Academi Rhyngwladol y Llais Cymru ym Mhrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant.

Dennis O'Neill has appeared at the major Opera Houses of the world, specialising in Verdi and was awarded the Verdi Medal by the Amici di Verdi in recognition of his work.

His long association with the Royal Opera Covent Garden, covered leading roles in over two hundred performances centred around the great Verdian roles.

He has appeared for many North American companies notably the Metropolitan Opera, San Francisco Opera and Chicago Lyric Opera.


In Europe, appearances have taken him throughout the continent and Scandinavia, especially to the Bavarian State Opera, Vienna State Opera, Paris Opera, Berlin State Opera, Deutche Oper Berlin, Arena di Verona and (on tour with La Scala) the Bolshoi Theatre Moscow.

Appointed CBE for services to Opera, other acknowledgments include OStJ, (Order of St John) and Hon RAM (honorary membership, Royal Academy of Music).

Commercial videos and albums include Der Rosenkavalier (Solti), Verdi Requiem (Colin Davis), Macbeth (Sinopoli), Idomeneo (Mackerras), La Fanciulla del West (Slatkin) and Mefistofole (San Francisco Opera), La Boheme, Cavalleria Rusticana, I Pagliacci, Aida, Turandot and many solo recital discs.

He has given masterclasses and adjudicated in many international competitions including Australia, New Zealand, Japan , China, Greece, France, Italy, Germany, Young Artists Programme at Covent Garden the Tchaikovsky Competition and Vishneskaya competitions in Moscow.

He is Founder and Director of the Wales International Academy of Voice, University of Wales, Trinity Saint David.



## Dennis **O'Neill**

CBE

# Y **Rheithgor** The **Jury**

Bu David Gowland yn astudio yn y Coleg Cerdd Brenhinol, gan ennill sawl gwobr am ei gyfeilio ar y piano tra'r oedd yno, ac yn y Stiwdio Opera Genedlaethol. Ymunodd â staff cerddorol Glyndebourne ym 1987, gan ennill Gwobr Jani Strasser yn 1988, a gweithio yno am 20 mlynedd. Rhwng 1989 a 96 ef oedd Pennaeth y Staff Cerddorol yn y Grand Théâtre de Genève, gan gynorthwyo arweinwyr megis Tate, Patané, Jordan, Bartoletti, Thielemann, Plasson, Elder, de Waart, Bertini a Campanella. Mae wedi gweithio fel arweinydd cynorthwyol / uwch hyfforddwr gyda chwmnïau megis Opéra National de Paris, Opera Cenedlaethol yr Iseldiroedd, Opera Brenhinol Denmarc, Opera di Roma, Teatro San Carlo di Napoli, Théâtre Capitole de Toulouse, Teatro Real di Madrid a Gwyliau Aix-en-Provence, Chorégies de Orange, Salzburg a Wexford. Bu'n uwch hyfforddwr ar gynhyrchiad The Ring dan arweiniad Jeffrey Tate yn Awstralia. Mae wedi arwain Die Dreigroschenoper ar gyfer RADA. Mae wedi perfformio mewn cyngherddau yng ngwyliau Caeredin ac Aldeburgh a'r BBC Proms. Mae'n diwtor gwadd gyda'r Stiwdio Opera Genedlaethol, Opera Ieuenctid Prydain, Artistiaid sy'n dechrau dod i amlygrwydd gydag Opera'r Alban, Theatr Genedlaethol Newydd Tokyo a holl conservatoires blaenllaw Prydain. Mae'n aelod cyson o reithgorau cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol ac wedi darparu meistr wersi led-led Ewrop, America Ladin, y Dwyrain Pell, Awstralia a De Affrica. Mae wedi bod â chyswllt a Rhaglen Artistiaid Ifanc y Tŷ Opera Brenhinol ers i'r rhaglen honno gychwyn yn 2000, yn y lle cyntaf fel Cyfarwyddwr Paratoadau Cerddorol ac ers 2006 fel y Cyfarwyddwr Artistig , ac mae'n gyfeilydd cyson ar gyfer datganiadau Artistiaid Ifanc Jette Parker. Mae wedi cydweithio ar lwyfan cyngherddau yn ddiweddar gyda Nelly Miricioiu yn St John's Smith Square, Eri Nakamura yn Tokyo ac Osaka a Dušica Bijelić a Haoyin Xue yn Nanjing a Beijing.

David Gowland studied at the Royal College of Music, where he won several prizes for piano accompaniment, and at the National Opera Studio. He joined the Glyndebourne music staff in 1987, won the 1988 Jani Strasser Award, and worked there for 20 years. He was Head of Music Staff at the Grand Théâtre de Genève 1989-96, assisting conductors such as Tate, Patané, Jordan, Bartoletti, Thielemann, Plasson, Elder, de Waart, Bertini and Campanella. He has worked as assistant conductor/senior coach with companies including Opéra National de Paris, Dutch National Opera, Royal Danish Opera, Opera di Roma, Teatro San Carlo di Napoli, Théâtre Capitole de Toulouse, Teatro Real di Madrid and the Festivals of Aix-en-Provence, Chorégies de Orange, Salzburg and Wexford. He was senior coach on The Ring under Jeffrey Tate in Australia. He has conducted Die Dreigroschenoper for RADA. Concert work has included the Edinburgh and Aldeburgh Festivals and the BBC Proms. He is a visiting tutor at the National Opera Studio, British Youth Opera, Scottish Opera Emerging Artists, New National Theatre Tokyo and all the major British conservatoires. He is a regular jury member for national and international competitions and has given masterclasses throughout Europe, Latin America, the Far East, Australia and South Africa. He has been associated with the Young Artists Programme at the Royal Opera House since its inception in 2000, initially as Director of Musical Preparation and from 2006 as Artistic Director, and regularly accompanies the Jette Parker Young Artists in recitals. Recent collaborations on the concert platform include Nelly Miricioiu at St John's Smith Square, Eri Nakamura in Tokyo and Osaka and Dušica Bijelić and Haoyin Xue in Nanjing and Beijing.



## David **Gowland**

Astudiodd Elaine Padmore gerddoriaeth ym Mhrifysgol Birmingham a'r Guildhall, cyn dechrau ei gyrfa fel cantores, répétiteur ac ysgrifennydd, gan ddod yn ddarlithydd yn hanes yr opera yn yr Academi Cerdd Brenhinol. Yn dilyn cyfnod fel golygydd gyda Gwasg Prifysgol Rhydychen ymunodd â'r BBC ym 1971 fel cynhyrchydd gyda Radio 3 ac yn ystod gyrfa 20-mlynedd o hyd gyda'r BBC daeth yn Brif Gynhyrchydd Opera ac yn gyflwynydd a darlledwr adnabyddus. Ym 1982 cafodd ei phenodi yn gyfarwyddwr Artistig Gŵyl Opera Wexford yn Iwerddon, ac yn ystod ei chyfnod o 13-mlynedd yn y swydd llwyfannwyd 40 o operâu prin. Yn ogystal bu'n rhan o gynnal operâu ar raddfa fawr megis cynyrchiadau Harvey Goldsmith o Tosca a Carmen yn Arena Earl's Court. Rhwng 1993 a 2000, bu'n byw yng Nghopenhagen fel Cyfarwyddwr Artistig Opera Brenhinol Denmarc, cyfnod pan fu twf aruthrol yn enw da rhyngwladol y Cwmni. Yn 2000 cafodd ei phenodi yn Gyfarwyddwr Opera yn y Tŷ Opera Brenhinol, Covent Garden, a oedd newydd ei ail-agor – swydd a fu ganddi tan ei hymddeoliad yn 2011 ac ymhlith ei llwyddiannau niferus mae sefydlu'r Rhaglen Artistiaid Ifanc. Mae'n aelod o Fwrdd Opera Ieuenctid Prydain ac yn Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Gerddorol Iarlles Munster. Mae wedi gwasanaethu hefyd fel beirniad cerddorol sawl tro, yn cynnwys BBC Canwr y Byd Caerdydd, a Gwobrau Kathleen Ferrier, Richard Tauber, a Luciano Pavarotti.

Elaine Padmore read music at Birmingham University and the Guildhall, and began her career as a singer, répétiteur and writer, becoming a lecturer in operatic history at the Royal Academy of Music. After a period as an editor at Oxford University Press, she joined the BBC in 1971 as a Radio 3 producer and, during a 20-year career at the BBC, became Chief Producer of Opera and was well known as a presenter and broadcaster. In 1982 she was appointed Artistic Director of Ireland's Wexford Festival Opera where her 13-year tenure saw the production of 40 rare operas. She also became involved in running large-scale opera such as the Harvey Goldsmith productions of Tosca and Carmen at Earl's Court Arena. From 1993 to 2000, she lived in Copenhagen as Artistic Director of the Royal Danish Opera, a period acclaimed as being of unprecedented growth in the Company's international reputation. In 2000 she was appointed Director of Opera at the newly reopened Royal Opera House, Covent Garden, a post she held until retirement in 2011 and where, amongst her many other achievements, she initiated the Young Artists Programme. A Board member of British Youth Opera and a Trustee of the Countess of Munster Musical Trust, she has served on many musical juries, including BBC Cardiff Singer of the World, the Kathleen Ferrier, Richard Tauber, and Luciano Pavarotti Awards.



## Elaine **Padmore**

OBE

Ganed Rebecca Evans yn ne Cymru gan astudio yn Ysgol Gerdd a Drama'r Guildhall. Dyfarnwyd iddi CBE yn Anrhydeddau Penblwydd y Frenhines 2020.

Ymhlith yr uchafbwyntiau diweddar yng nghalendr Rebecca mae'r brif ran yn 'Rodelinda' ar gyfer Opera Cenedlaethol Lloegr, Marschallin 'Der Rosenkavalier' ar gyfer Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru ac Alice Ford mewn perfformiadau cyngerdd o 'Falstaff' gyda Syr Bryn Terfel a Cherddorfa Ffilharmonig Frenhinol Lerpwl gyda Vasily Petrenko a chynhyrchiad newydd o'r opera ar gyfer y Teatro Real ym Madrid.

Mae wedi canu rhan Y Iarlles yn 'Le nozze di Figaro', Mimì 'La bohème', Pamina 'Die Zauberflöte', Zerlina 'Don Giovanni' a Despina 'Cosi fan tutte' yn y Tŷ Opera Brenhiol, Covent Garden; Ginevra 'Ariodante', Despina, Ilia 'Idomeneo' a Susanna 'Le nozze di Figaro' gyda'r Bayerische Staaatsoper, Munchen a Despina yn y Deutsche Staatsoper Berlin. Gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Lloegr mae wedi perfformio rhannau y Governess 'The Turn of the Screw', Romilda 'Xerxes' a Ginevra. Mae ei llu o rannau ar gyfer Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru yn cynnwys Angelica 'Orlando', Liu 'Turandot', Mimì, yr Iarlles, Pamina a Gretel 'Hänsel und Gretel'. Yn yr UDA mae wedi perfformio rhan Susanna a Zerlina ar gyfer Cwmni Opera'r Met, Efrog Newydd; Susanna yn Santa Fe; Pamina ac Adèle 'Die Fledermaus' ar gyfer Lyric Opera Chicago a Zerlina, Anne Trulove 'The Rake's Progress' ac Adina 'L'elisir d'amore' ar gyfer San Francisco Opera.

Mae wedi perfformio mewn cyngherddau yng Ngwyliau Salzburg, Caeredin, Tanglewood a Ravinia ac ymddangos yn gyson yn ystod Proms y BBC. Mae ei huchafbwyntiau diweddar yn cynnwys Symffoni rhif 9 Beethoven gyda'r Leipzig Gewandhausorchester/Blomstedt a gyda Cherddorfa Symffoni Llundain /Gardiner, 'A Child of our Time' gyda'r Orchestre Philharmonique de Strasbourg/Rizzi, 'The Apostles' gyda Cherddorfa Hallé /Elder a Brahms' 'Ein Deutsches Requiem' gyda'r Accademia Santa Cecilia/Pappano.

Yn artist sydd wedi ennill Gwobr Grammy, mae wedi recordio'n helaeth yn cynnwys rhannau Marzelline, Pamina a Gretel gyda Syr Charles Mackerras, Ilia gyda David Parry a Leïla gyda Brad Cohen (Chandos); Nanetta gyda Syr John Eliot Gardiner (Philips); cyfres o recordiadau Gilbert and Sullivan gyda Syr Charles Mackerras a recordiad unigol o ganeuon Eidalaidd (EMI).

Mae Rebecca yn ymddiriedolwr ar gyfer Ymddiriedolaeth Elusennol Tregolwyn ac yn noddwr nifer o elusennau, yn eu plith Shelter Cymru, Tŷ Hapus a Music in Hospitals Cymru/Wales.

Rebecca Evans was born in South Wales, and studied at the Guildhall School of Music & Drama. She was awarded a CBE in the 2020 Queen's Birthday Honours.

Recent highlights in Rebecca's schedule include the title role in 'Rodelinda' for the English National Opera, Marschallin 'Der Rosenkavalier' for the Welsh National Opera and Alice Ford in concert performances of 'Falstaff' opposite Sir Bryn Terfel with the Royal Liverpool Philharmonic Orchestra under Vasily Petrenko and in a new production of the opera for the Teatro Real in Madrid.

She has sung Contessa 'Le nozze di Figaro', Mimì 'La bohème', Pamina 'Die Zauberflöte', Zerlina 'Don Giovanni' and Despina 'Cosi fan tutte' at the Royal Opera, Covent Garden; Ginevra 'Ariodante', Despina, Ilia 'Idomeneo' and Susanna 'Le nozze di Figaro' at the Bayerische Staaatsoper, Munich and Despina at the Deutsche Staatsoper Berlin. At the English National Opera she has sung Governess 'The Turn of the Screw', Romilda 'Xerxes' and Ginevra. Her many roles for the Welsh National Opera have included Angelica 'Orlando', Liu 'Turandot', Mimì, Contessa, Pamina and Gretel 'Hänsel und Gretel'. In the USA she has sung Susanna and Zerlina for the Metropolitan Opera, New York; Susanna in Santa Fe; Pamina and Adèle 'Die Fledermaus' for the Lyric Opera of Chicago and Zerlina, Anne Trulove 'The Rake's Progress' and Adina 'L'elisir d'amore' for the San Francisco Opera.

In concert she has appeared at the Salzburg, Edinburgh, Tanglewood and Ravinia Festivals and she is a regular guest at the BBC Proms. Recent highlights have included Beethoven's Symphony No. 9 with the Leipzig Gewandhausorchester/Blomstedt and with the London Symphony Orchestra/Gardiner, 'A Child of our Time' with the Orchestre Philharmonique de Strasbourg/Rizzi, 'The Apostles' with the Hallé Orchestra/Elder and Brahms' 'Ein Deutsches Requiem' with the Accademia Santa Cecilia/Pappano.

A Grammy Award winning artist, she has recorded prolifically including Marzelline, Pamina and Gretel with Sir Charles Mackerras, Ilia with David Parry and Leïla with Brad Cohen (Chandos); Nanetta with Sir John Eliot Gardiner (Philips); a series of Gilbert and Sullivan recordings with Sir Charles Mackerras and a solo recording of Italian songs (EMI).

Rebecca is a Trustee of the Colwinston Charitable Trust and patron of several charities, among them Shelter Cymru, Ty Hapus and Music in Hospitals Cymru/Wales.



## Rebecca **Evans**

CBE

Welsh Singers Showcase

2021

Llwyfan Cantorion Cymreig

Programme designed by Hydesign Ltd